



Tîm Gofal Lliniarol Arbenigol Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg, Abertawe/Castell-nedd Port Talbot

Adolygiad gan Gymheiriaid o Ofal Diwedd Oes

Dyddiad yr Ymweliad - 19 Tachwedd 2014

Tîm Adolygu Gan Gymheiriaid Gofal Diwedd Oes

Enw (llythrennau bras)	Teitl Swydd	Sefydliad
Dr Ian Back (Cadeirydd)	Arweinydd Clinigol Meddygaeth Liniarol Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Cwm Taf
Kay Jeynes	Nyrs Arwain y Lleoliad / Arweinydd Proffesiynol ar gyfer Nyrsys Ardal / Prif Reolwr Gofal Lliniarol Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro	Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro
Tracy Livingstone	Cyfarwyddwr Nyrsio a Gwasanaethau Cleifion	Hosbis Nightingale House, Wrecsam
Mansel Thomas	Adolygydd Lleyg	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Cymorth Rhwyddhad: Veronica Snow, Rheolwr y Rhaglen Gofal Diwedd Oes		

Teitl Sefydliad	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	
Teitl y tîm	Tîm Gofal Lliniarol Arbenigol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot	
Teitl Dyddiad Adolygu	19 Tachwedd 2014	
Enw (llythrennau bras)	Teitl Swydd	Sefydliad
Dr Idris Baker	Meddyg Ymgynghorol mewn Meddygaeth Liniarol Cyfarwyddwr Clinigol Cyswllt Gwasanaethau Canser	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Dr Sue Morgan	Meddyg Ymgynghorol mewn Meddygaeth Liniarol Clinigydd Arweiniol mewn Gofal Lliniarol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Ann Brennan	Nyrs Arwain Arbenigol Gofal Lliniarol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Dr Helen Taylor	Meddyg Ymgynghorol mewn Meddygaeth Liniarol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe

		Bro Morgannwg
Dr Rebecca Croft	Cofrestrydd Arbenigol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Dr Gwen Davies	ST6	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Dr Owain Thomas	Cofrestrydd Arbenigol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Dr Clare Turner	Meddyg Ymgynghorol mewn Meddygaeth Liniarol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Dr Elizabeth Birch	Meddyg Ymgynghorol mewn Meddygaeth Liniarol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Dr Isobel Jackson	ST3 Cofrestrydd Arbenigol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Erica Tutton	Rheolwr Ward Tŷ Olwen	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Debra Shreeve	Nyrs Glinigol Arbenigol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Teresa Pace	Nyrs Glinigol Arbenigol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Claire Job	Nyrs Glinigol Arbenigol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Kate Tucker	Nyrs Glinigol Arbenigol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Jean Archer	Uwch Ffisiotherapydd Tŷ Olwen	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe

		Bro Morgannwg
Joanne Evans	Prif Therapydd Galwedigaethol Tŷ Olwen	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Les Hammond	Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol y Gyfarwyddiaeth, Gwasanaethau Canser	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

ADRODDIAD YR ADOLYGWYR

Crynodeb o'r Adolygiad

Mae tîm gofal lliniarol arbenigol integredig Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn Abertawe/Castell-nedd Port Talbot yn darparu gwasanaeth i boblogaeth o 394,000, ledled y gymuned, mewn tri ysbyty, canolfan ganser, dwy ganolfan ofal dydd, a hosbis arbenigol ar gyfer cleifion preswyl. Mae tîm cleifion preswyl yr ysbyty hefyd yn mynychu cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol cancer safle penodol. Mae heriau'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth i ddalgylch mor eang. Mae'r arweinydd clinigol hefyd yn rheoli'r tîm cyfagos a leolir yn Ysbyty Tywysoges Cymru. Mae'r strwythur hwn yn hwyluso gweithio a chyfathrebu ar y cyd, ond gall fod yn anodd o ran logisteg.

Dylid canmol y tîm am ddarparu gwasanaeth trefnus sy'n cael ei redeg yn dda, ac mae tystiolaeth o waith llywodraethu da i gefnogi staff a chleifion.

Mae strwythur tîm amlddisgyblaethol llawn ar waith; cauff pob claf ei drafod mewn cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol wythnosol, a chaiff hyn ei gofnodi ar System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru. Mae gan y staff gymwysterau a hyfforddiant priodol. Mae adroddiadau'r tîm yn nodi bod gwasanaethau seicoleg ar gael ond mae mynediad atynt yn gyfyngedig.

Mae enghreifftiau o arferion da y gellid eu rhannu e.e. cymorth i bobl ddi-gartref yn y gymuned. Mae'n amlwg bod archwiliadau'n cael eu defnyddio i newid arferion.

Yn hanesyddol, mae'r gwasanaeth yn cael ei ystyried yn rhan o Wasanaethau Canser, ac mae angen datblygu perthnasau yng ngofal eilaidd ymhellach, ond mae cynnydd yn cael ei wneud, e.e. o ganlyniad i waith ar y cyd gyda'r timau cardioleg a thorasig, mae cleifion cardiaidd wedi gallu manteisio ar y tîm a'r gwasanaethau yn Hosbis Tŷ Olwen.

Gwnaeth y tîm gydnabod bod angen gwella hygyrchedd gwybodaeth, yn enwedig ar gyfer grwpiau anodd eu cyrraedd. Mae cynllun ar waith i fynd i'r afael â'r diffyg hwn.

Nodwyd bod perthnasau da gyda gofal sylfaenol, ac mae modd rhyddhau cleifion sy'n marw yn gyflym er mwyn mynd adref, er gall prosesau asesu risg effeithio ar ddewisiadau cleifion.

Mae 'diwylliant o ddysgu' wedi'i ymgorffori yn y tîm, ac mae'r rhaglen hyfforddi arbenigwyr

meddygol yn gwella hyn ymhellach. Rhoddwyd nifer o enghreifftiau o ddiwrnodau hyfforddiant/astudio a gynigid i staff yn gyffredinol, ond mae nifer y bobl sydd wedi manteisio arnynt yn isel. Dros gyfnod o ddwy flynedd, gwnaeth 300 o bobl o blith 1700 fynychu hyfforddiant mewn gofal diwedd oes.

Gwnaeth yr Adroddiad Andrews diweddar, Ymddiried Mewn Gofal, argymhell y dylid blaenoriaethu hyfforddiant mewn gofal am bobl sy'n marw.

Gall y Bwrdd Iechyd weld gwerth ac effaith gofal diwedd oes da, ac mae grŵp gweithredu Adroddiad Andrews y Bwrdd Iechyd bellach yn gweithio gyda'r tîm i helpu i ddarparu addysg gofal diwedd oes.

Mae angen i'r gwasanaeth gael ei gydnabod yn fwy eang o fewn y Bwrdd Iechyd am ei arbenigedd clinigol, am y cymorth y gall ei gynnig i dimau eraill sy'n gofalu am gleifion lliniarol heb salwch falaen, ac am y cyfraniad y gallent ei gynnig i wella gwybodaeth a sgiliau staff generig o ran darparu gofal diwedd oes.

Adolygiad gan Gymheiriaid, Hydref 21 2014.

Themâu Allweddol

Gan gyfeirio at ganllawiau ar Themâu Allweddol yn y canllawiau tystiolaeth, rhowch sylwadau sy'n cynnwys manylion cryfderau, meysydd i'w datblygu, ac effeithiolrwydd y tîm yn gyffredinol. Dylid nodi unrhyw feysydd penodol sy'n destun pryder neu arferion da yn yr adrannau canlynol.

Strwythur a swyddogaeth y gwasanaeth

Dylid gwneud sylwadau ynglŷn ag arweinyddiaeth, aelodaeth, presenoldeb, trefniadau cyfarfodydd, polisïau gweithredol, a llwyth gwaith. Dylai timau gwneud sylwadau penodol ynglŷn â'r cwestiynau canlynol:

- A yw'r holl aelodau craidd ar waith?
- A oes gan yr holl aelodau craidd allweddol gymwysterau priodol mewn Gofal Lliniarol?
- A oes polisi gweithredol ar waith?
- A yw'r tîm amlddisgyblaethol yn cwrdd bob wythnos ac yn cofnodi cyfarfodydd ar System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru?
- A oes protocol cyfathrebu?
- Sawl claf a atgyfeiriwyd/a dderbyniwyd gan y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn flaenorol?

Cyfansoddiad y Tîm

Mae tîm Abertawe / Castell-nedd Port Talbot yn rhan o dîm Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae'r tîm hwn yn dîm amlddisgyblaethol gofal lliniarol arbenigol integredig gweithredol sy'n darparu gwasanaeth i boblogaeth o 394,000, ledled y cymunedau canlynol:

- Ysbyty Castell-nedd Port Talbot
- Canolfan Ofal Dydd y Rhosyn
- Ysbyty Singleton
- Canolfan Ganser Singleton
- Ysbyty Treforys
- Hosbis Tŷ Olwen
- Cymuned Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot

Mae'r gwasanaeth wedi'i arwain gan feddygon ymgynghorol, ac mae tîm o bum meddyg ymgynghorol cyfwerth ag amser llawn, pedwar hyfforddai meddygol arbenigol, ac 11.5 o arbenigwyr nyrsio clinigol cyfwerth ag amser llawn, ac maent yn darparu gwasanaeth o ddydd Llun i dydd Gwener, rhwng 9am a 5pm. Mae'r tîm meddygol yn cymryd rhan yn y rota ar alwad ledled ardal De Ddwyrain Cymru, ac maent yn darparu cymorth a chyngor 24/7.

Mae 11.5 o arbenigwyr nyrsio clinigol cyfwerth ag amser llawn yn darparu gwasanaeth rhwng 9am a 5pm, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth wedi'i gefnogi gan dimau neilltuedig sy'n darparu gofal lliniarol arbenigol, ffisiotherapi, a therapi galwedigaethol.

Mae'r mynediad at wasanaethau seicoleg yn gyfyngedig. Mae seicoleg cyswllt ar gael ar gyfer cleifion preswyl drwy Ganolfan Maggie. Trafodwyd hyn gyda'r bwrdd iechyd, ac maent yn mynd i'r afael â'r mater, ond yn cydnabod eu bod yn cystadlu am adnoddau.

Mae gwirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn rhaglen hyfforddiant cynhwysfawr a manwl gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae Cymorth Galar i Blant yn gwasanaeth cyfeirio yn unig, ac mae'n defnyddio system fetrics er mwyn canfod y rhai sydd ei angen.

Mae 14 o welyau arbenigol yn Hosbis Tŷ Olwen ar safle Ysbyty Treforys. Yn ystod 2012, gwnaeth yr Hosbis dderbyn 315 o gleifion. Cafodd 210 ohonynt eu derbyn yn uniongyrchol o adref, a throsglwyddwyd 105 ohonynt o ysbytai Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Gellir cael gwely yng Nghanolfan Ganser Singleton i gleifion sydd angen ymyriadau cysylltiedig.

Mae arweinyddiaeth glinigol gref gan yr arweinwyr meddygol a nyrsio. Mae proses cadarn ar gyfer rheoli'r gwasanaeth, gyda chymorth, goruchwyliaeth, a chanllawiau a pholisïau ffurfiol ar waith. Mae staff yn cael cyfarfodydd cymorth 1-2-1 gyda rheolwr bob 3/12.

Cyfanswm y cleifion ar y llwyth achos ar gyfer y cyfnod 01/11/2013 - 31/10/2014 oedd 1,795, ac roedd 1,292 ohonynt yn gleifion newydd.

Llwybrau gofal/cleifion

A oes llwybr rheoli clir ar gyfer cleifion sydd angen triniaeth gymhleth i reoli eu symptomau?
E.e. Cywasgiad Metastatig Llinyn Asgwrn y Cefn

Dylid gwneud sylwadau am gydlynu gofal a llwybrau gofal sy'n canolbwyntio ar gleifion,
Arweinyddiaeth glinigol a chyfathrebu

Llwybr Cleifion: Mae llwybrau rheoli clir ar gyfer cleifion sydd angen triniaeth gymhleth i reoli eu symptomau. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda'r holl dimau amlddisgyblaethol cancer, ac mae modd derbyn cleifion â chywasgiad metastatig llinyn asgwrn y cefn tybiedig yng Nghanolfan Ganser Singleton i gael triniaeth os oes angen. Gall cleifion hefyd gael eu hasesu, eu rheoli, a'u hadsefydlu yn Nhŷ Olwen.

Cyfathrebu: Mae protocol cyfathrebu ar waith. Cynhelir cyfarfodydd tîm rheolaidd, ac mae system ar waith i raeadru gwybodaeth. Nodwyd bod y berthynas gyda Marie Curie, sy'n darparu gwasanaeth ymweld yn y gymuned mwy nag unwaith, yn 'dda iawn'. Mae arweinydd tîm Marie Curie yn mynychu cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol. Mae'r tîm o'r farn y gellid ehangu'r gwasanaeth er mwyn rhoi mwy o ddewis i bobl sydd am farw gartref. Mae mynychu'r clinig clefyd niwronau echddygol a chlinigau eraill ar gyfer clefydau nad dynt yn falaen yn helpu i feithrin perthnasau strategol a phroffesiynol.

Cydlynu: Mae un tîm integredig yn ei wneud yn bosibl cydlynu gofal rhwng y Cartref, yr Ysbyty a'r Hosbis. Mae'r tîm cymunedol yn mynychu'r holl gyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol gofal lliniarol mewn practisau meddyg teulu. Mae'r defnydd a wneir o gofrestri gofal mewn gofal sylfaenol yn isel o gymharu ag ardaloedd bwrdd iechyd eraill, ac mae'r tîm yn gweithio gydag arweinwyr gofal sylfaenol eraill i wella hyn.

Blaenoriaethau Gofal Integredig

Mae'r hosbis yn cymryd rhan ym mhrosiect Blaenoriaethau Gofal Integredig Cymru Gyfan ar gyfer Dyddiau Olaf Bywyd, ac mae'n cefnogi gwneud hefnidd ohono mewn lleoliadau gofal eraill – yr ysbyty a'r gymuned.

Profiad y claf

Dylid gwneud sylwadau am brofiad y claf a chasglu adborth am brofiad cleifion, yn ogystal â chyfathrebu a gwybodaeth i gleifion a mentrau cymorth eraill i gleifion. Dylai timau wneud sylwadau yn benodol am:

- Pa drefniadau sydd ar waith i helpu cleifion i gael eu rhyddhau/derbyn yn gyflym ar ddiwedd eu hoes?
- Beth yw canlyniadau'r arolwg cenedlaethol o brofiad cleifion (iWantGreatCare)?

Mae'r tîm yn nodi bod trefniadau da ar gyfer rhyddhau'n gyflym. Mae'r ffaith bod y tîm wedi'i leoli yn Nhŷ Olwen a bod ganddo'r un uwch reolwyr yn galluogi cyfathrebu da a gweithio integredig. Mae'r cymorth hwn yn galluogi pobl i gael eu rhyddhau a'u derbyn i Hosbis Tŷ Olwen.

Weithiau, gall dewisiadau cleifion gael eu llesteirio gan y prosesau asesu risg, ond gwneir ymdrech i ryddhau cleifion sydd am farw gartref.

Mae'r gwasanaethau cymunedol sy'n cefnogi rhyddhau cyflym yn cynnwys:

- Tîm ymateb gofal lliniarol cymunedol Abertawe (SPICE) yn hwyluso rhyddhau llwybr carlam.
- Mae gwasanaeth ymweld mwy nag unwaith Marie Curie a leolir yng Nghanolfan Adnoddau Port Talbot.
- Mae'r amser ymateb o 48 awr ar gyfer y cais Ariannu Gofal Iechyd Parhaus i gleifion sy'n marw wedi gwneud gwahaniaeth.

Mae Arolwg Adborth Defnyddwyr iWantGreatCare (iwgc) yn nodi bod lefelau uchel o foddhad cleifion. Lleisiodd y tîm bryderon nad oeddent bob amser yn gallu gwneud gwaith dilynol ar unrhyw adborth negyddol gan iwgc.

Gosodir adborth negyddol gan unrhyw ffynhonnell, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol, fel eitem agenda mewn cyfarfodydd tîm.

Mae prif nyrsys ward yn Nhŷ Olwen yn gweithio ar benwythnosau a sifftiau prynhawn, felly maent yn gallu cwrdd â pherthnasau'n rheolaidd i drafod unrhyw bryderon.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn newid eu proses adborth i gyflwyno system 'Bocs Coch', gan alluogi cleifion a pherthnasau i gyflwyno adborth yn gyfrinachol tra maent ar y ward.

Mae'r tîm yn cydnabod bod lle i wella o ran cynnwys defnyddwyr mewn modd ystyrlon.

Caiff cwynion swyddogol eu rheoli drwy broses ffurfiol y Bwrdd Iechyd.

Caiff pryderon anffurfiol eu harchwilio, ac fe'u cymerir i'r cyfarfod llywodraethu clinigol

misol. Yna, cânt eu rhannu, fel ffordd o ddysgu.

Gwella Gofal, Cyflawni Canlyniadau

Amgylchedd: Mae uned cleifion mewnol Tŷ Olwen yn cael ei hailwampio ar hyn o bryd gyda chyllid elusennol y Bwrdd Iechyd. Bydd hyn yn gwella'r amgylchedd i gleifion, perthnasau a staff.

Archwilio: Mae'r tîm yn nodi bod sawl archwiliad wedi'u cynnal i wella gofal cleifion. Mae tystiolaeth hefyd bod y gylchred archwilio wedi newid arferion.

- Mae archwiliad diweddar i'r defnydd a wneir o steroidau wedi arwain at lunio polisi a chanllawiau steroidau i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch defnyddio steroidau
- Cyflwynwyd archwiliad o anghenion gofal lliniarol heb eu cyflawni mewn cleifion â chlefyd yr afu yng Nghynhadledd Gofal Lliniarol Cymru Gyfan yng Ngregynog ym mis Tachwedd 2014.

Profion Clinigol: Tystiolaeth o archwiliad ac ymchwil. Wedi cymryd rhan yn yr astudiaeth 'IPAC'. Datblygwyd cysylltiadau gyda'r uned ymchwil Marie Curie yng Nghaerdydd, ac mae'r tîm yn nodi eu bod yn cadw golwg am brosiectau posibl y gellid cymryd rhan ynddynt.

Sylwadau'r Tîm

Mae'r tîm yn teimlo eu bod yn cydweithio'n dda i ddarparu gwasanaeth da. Maent yn teimlo'n rhwystredig oherwydd y diffyg cyfleoedd hyfforddiant ac addysg sydd ganddynt i'w cynnig.

Adolygiad o Nodiadau Achos

Adolygwyd chwe set o nodiadau achos ar y diwrnod.

- Roedd gan chwe set o nodiadau restr o asesiadau a phroblemau.
- Roedd gan chwe set o nodiadau gofnod System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru/taflen drafod tîm amlddisgyblaethol.
- Roedd pob cofnod wedi'i lofnodi mewn chwe set o nodiadau, ond dim ond un cofnod oedd hefyd yn nodi'r enw mewn llythrennau bras
- Roedd gan bum set o nodiadau statws adfywio cardio-pwlmonaidd wedi'i gofnodi.
- Roedd yn anodd darllen y llofnod ar ddwy set o nodiadau
- Roedd gan un set o nodiadau dudalennau rhydd

Arferion da

Nodwch unrhyw feysydd o arfer da

- Mae cysylltiadau da gyda'r nyrs a gyflogir i gynorthwyo'r boblogaeth ddi-gartref. Cynnal ymweliadau ar y cyd. Mae practis meddyg teulu sydd â chyfrifoldeb dros y boblogaeth hon, ac mae'r tîm yn cydweithio'n agos â nhw
- Defnyddio archwiliadau i newid arferion
- Mae rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr ar waith i gynorthwyo staff cyffredinol
- Defnyddio fideogynadledda i ddarparu sesiynau addysg ledled ardal y Bwrdd Iechyd
- Mae'r tîm cymuned integredig ac aciwt a leolir ar safle Tŷ Olwen yn hwyluso derbyn a rhyddhau cleifion yn gyflym rhwng y gymuned a'r hosbis.
- Crynodeb rhyddhau electronig er mwyn llywio gofal sylfaenol wrth ryddhau cleifion

Meysydd i'w hystyried

- Dylid ymchwilio i ddulliau amgen o ddarparu hyfforddiant er mwyn cynyddu'r nifer sy'n ei wneud, e.e. defnyddio llawlyfrau hyfforddiant, dysgu cyfunol.
- Gweithio gyda'r bwrdd iechyd i wneud hyfforddiant Gofal Diwedd Oes yn orfodol.
- Ymchwilio i ddatrysiadau ar gyfer darparu gwybodaeth i gleifion.
- Mynd i'r afael â mynediad at wasanaethau seicoleg gyda rheolwyr y bwrdd iechyd
- Parhau i wneud gwaith i ddatblygu partneriaethau yng ngofal eilaidd
- Codi proffil gofal lliniarol arbenigol o fewn y bwrdd iechyd

Canfyddiadau cyffredinol

Mae tîm Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn cael ei redeg yn dda, mae gan y tîm gymwysterau priodol, mae arweinyddiaeth gref, ac mae'r polisiau'n glir ac yn gryno. Cynhelir cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol bob wythnos. Defnyddir System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru i gofnodi'r holl wybodaeth. Trafodir pob claf newydd yn y cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol wythnosol, a chytunir ar gynllun gofal. Caiff cleifion preswyl eu hadolygu'n wythnosol yn y cyfarfod tîm amlddisgyblaethol. Gwnaeth y panel adolygu nodi'r canlynol:

- Mae adborth gan ddefnyddwyr yn dangos bod y cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth. Caiff cwynion a phryderon eu rheoli mewn modd priodol, a chaiff yr hyn a ddysgir ei rannu.
- Mae enghreifftiau o arferion da y gellid eu rhannu e.e. cymorth i bobl ddi-gartref yn y gymuned.
- Mae'n amlwg bod archwiliadau'n cael eu defnyddio i newid arferion.
- Mae mynediad at wasanaethau seicoleg yn gyfyngedig.
- Mae rhaglen hyfforddiant ac addysg gynhwysfawr ar gael i staff cyffredinol Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Dros gyfnod o ddwy flynedd, gwnaeth

300 o bobl o blith 1700 fynychu hyfforddiant mewn gofal diwedd oes. Gwnaeth yr Adroddiad Andrews diweddar, Ymddiried Mewn Gofal, argymhell y dylid blaenoriaethu hyfforddiant mewn gofal am bobl sy'n marw. Dylai'r tîm weithio gydag uwch reolwyr y bwrdd iechyd er mwyn nodi ffyrdd y gellid cael mwy o staff i ymgymryd â'r hyfforddiant a gynigir

- Mae'r tîm yn gweithio i hyrwyddo'r gwasanaeth o fewn gofal eilaidd, er mwyn galluogi cleifion nad oes ganddynt ganser ag anghenion gofal lliniarol arbenigol i elwa ar y gwasanaeth yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.
- Cydnabuwyd bod diffyg gwybodaeth ar gael, yn enwedig ar gyfer grwpiau anodd eu cyrraedd, ac mae cynllun ar waith i fynd i'r afael â hyn gyda chymorth gan Gymorth Canser Macmillan
- Er bod adborth dan ddefnyddwyr yn dda drwy arolwg iWantGreatCare, mae'r tîm yn cydnabod bod angen gwneud mwy i ennyn diddordeb defnyddwyr gwasanaeth

Pryderon

Cyfeirio at y canllawiau ar gyfer nodi pryderon. Dylid cyflwyno unrhyw risgiau uniongyrchol neu pryderon brys yn uniongyrchol i'r tîm craidd

Dim

Pryderon Difrifol:

Dim

Mae'n rhaid cwblhau'r ffurflen hon ar adeg yr ymweliad, a rhaid i'r tîm adolygu llawn gytuno arno

Nodi Pryderon – Problemau

Problemau	Lefel Pryder Risg Uniongyrchol, Pryder Difrifol, Pryder	Beth yw'r pryder penodol?
Dim		